PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Rheoliadau Defnydd Derbyniol:
# Rheoliadau Defnyddio Adnoddau Technoleg Gwybodaeth

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|
| Mai 2009 | Cyhoeddiad cyntaf | |
| 8 Mehefin 2015 | Diweddariad a chymeradwyaeth gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | 28 Gorffennaf, 2015 |
| 28 Ionawr 2019 | Adolygu ac ail-gymeradwyo | |
| 15 Mehefin 2022 | Adolygu ac Atodiad 3 i'w gymeradwyo | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol | Ysgrifennydd y Brifysgol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 15 Mehefin 2022 |

*Adolygir y rheoliadau hyn ymhen 3 blynedd*

**Rheoliadau Defnydd Derbyniol:**
**Rheoliadau Defnyddio Adnoddau Technoleg Gwybodaeth**

Mae'r rheoliadau hyn yn defnyddio nifer o dermau a ddiffinnir yn adran 3 isod:

## 1. Trosolwg

1.1 Mae'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn yn datgan cyfrifoldebau defnyddwyr mewn perthynas ag adnoddau technoleg gwybodaeth. Caniateir pwerau ychwanegol i weinyddwyr awdurdodedig systemau ac maent yn ddarostyngedig i reoliadau ychwanegol.

[i] Darperir adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion derbyniol, awdurdodedig yn unig. Prif bwrpas y rheoliadau defnydd derbyniol hyn yw annog pobl i ddefnyddio'r adnoddau technoleg gwybodaeth mewn modd cyfrifol; sicrhau argaeledd yr adnoddau technoleg gwybodaeth at ddibenion cyfreithlon; a lleihau'r amlygiad i gamddefnydd o'r adnoddau oddi fewn neu oddi allan i'r brifysgol.

1.3 Mae gwneud defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol yn awgrymu, eich bod yn derbyn y rheoliadau defnydd derbyniol hyn, ac yn wir yn amodol ar hynny. Fe allai y bydd angen llofnod neu gydnabyddiaeth o'u derbyn wrth ymuno â'r brifysgol, ac o dro i dro wedi hynny. Serch hynny nid yw diffyg llofnod neu gydnabyddiaeth yn eithrio unigolyn rhag unrhyw ymrwymiad o dan y rheoliadau hyn.

1.4 Gallai methu â chydymffurfio â'r rheoliadau hyn arwain at gymryd camau o dan weithdrefnau disgyblu'r brifysgol, tynnu breintiau'n ôl neu atal mynediad at adnoddau technoleg gwybodaeth. Os amheuir defnyddiwr o dorri'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn gall cyfrif defnyddiwr gael ei atal dros dro hyd nes y daw unrhyw ymchwiliad gan y brifysgol neu unrhyw ymchwiliad gan gorff allanol e.e. yr heddlu i ben. O dan rai amgylchiadau gall torri'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn arwain at gosb droseddol neu sifil. Pan fo'r brifysgol o'r farn bod y defnydd yn gyfystyr â throsedd, bydd y brifysgol yn cyfeirio'r mater i'r asiantaethau gorfodi'r gyfraith priodol, ac unrhyw sefydliad arall y mae'n bosibl bod eu rheoliadau wedi eu torri. Nid yw'r brifysgol yn derbyn unrhyw atebolrwydd lle cymerir camau o'r fath.

1.5 Mae Prifysgol Bangor yn cadw'r hawl i adennill gan y defnyddiwr unrhyw gostau (gan gynnwys costau cyfreithiol) sy'n codi o ganlyniad i'w trosedd.

## 2. Cwmpas

Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- Y defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth a ddarperir gan Brifysgol Bangor neu yr hwylusir mynediad iddynt gan y brifysgol;
- Unrhyw adnoddau technoleg gwybodaeth sy'n eiddo i Brifysgol Bangor, neu adnoddau technoleg gwybodaeth yr hwylusir mynediad iddynt gan Brifysgol Bangor;
- Y defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth sy'n eiddo i gyrff eraill, y darperir mynediad iddynt gan Brifysgol Bangor. Mewn achosion o'r fath, bydd rheoliadau'r ddau gorff mewn grym. Os digwydd bod y rheoliadau'n gwrthdaro, rhoddir y flaenoriaeth i'r rheol fwy caeth.

Mae'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn mewn grym yn amodol ar y gyfraith ac yn ychwanegol ati. Os bydd defnyddiwr yn torri'r rheoliadau hyn mewn unrhyw ffordd gall hefyd fod yn agored i gosbau o dan y gyfraith sifil neu droseddol a gall Prifysgol Bangor ddefnyddio'r cyfryw gyfraith. Gellir cadw cofnod o'r defnydd a wneir o adnoddau technoleg gwybodaeth Prifysgol Bangor i ganiatáu canfod ac ymchwilio i achosion o dorri polisïau a chyfraith y Deyrnas Unedig.

## 3. Diffiniadau

Yn y rheoliadau defnydd derbyniol hyn defnyddir nifer o dermau a ddiffinnir isod:

Defnyddiwr/Defnyddwyr
Unrhyw berson neu bersonau sy'n defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- holl staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor; ac unigolion awdurdodedig eraill, sydd angen adnoddau technoleg gwybodaeth i hyrwyddo cenhadaeth y brifysgol;
- Aelodau o gyngor y brifysgol, ac o is-bwyllgorau'r cyngor;
- Unigolion sy'n cyrchu gwasanaethau ar-lein y sefydliad oddi ar y campws;
- Partneriaid allanol, contractwyr ac asiantau sydd wedi eu lleoli ar y safle ac sy'n defnyddio rhwydwaith Prifysgol Bangor, neu oddi ar y safle ac sy'n cyrchu systemau'r sefydliad;
- Tenantiaid y sefydliad sy'n defnyddio cyfrifiaduron, gweinyddion neu rwydwaith y brifysgol;
- Ymwelwyr sy'n defnyddio WiFi y sefydliad;
- Myfyrwyr a staff o sefydliadau eraill sy'n mewngofnodi gan ddefnyddio eduroam.

Gweinyddwr Awdurdodedig Systemau
Aelod staff sy'n gweinyddu systemau sy'n trosglwyddo neu'n dal gwybodaeth / data sy'n eiddo i eraill. Maent yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ac mae gofyn iddynt lofnodi datganiad i ddweud eu bod wedi darllen a deall y Siarter ar gyfer Gweinyddwyr Systemau a Rhwydweithiau[1]

Awdurdod Dynodedig
Yr awdurdod dynodedig ar gyfer adnoddau technoleg gwybodaeth yw'r sawl sy'n gyfrifol am eu darparu. Felly yn achos adnoddau technoleg gwybodaeth a ddarperir yn ganolog, yr awdurdod dynodedig fydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Digidol, neu'r sawl a enwebir ganddynt, ac, yn achos adnoddau technoleg gwybodaeth a ddarperir yn adrannol, yr awdurdod dynodedig fydd Deon y Coleg, Pennaeth yr Ysgol neu Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Proffesiynol dan sylw neu'r sawl a enwebir ganddynt.

Camddefnyddio Adnoddau Technoleg Gwybodaeth
Camddefnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol. Mae camddefnydd o'r fath yn cynnwys y canlynol, ond nid yw wedi'i gyfyngu iddynt:

- Ymdrechion i gael mynediad i gyfrifiaduron, data, cyfarpar rhwydwaith neu wybodaeth a drosglwyddir dros rwydwaith y brifysgol nad oes gan yr unigolyn awdurdodi i'w gweld.
- Ailwerthu data neu wasanaethau heb awdurdod.
- Ymdrechion i niweidio neu atal gwasanaeth o systemau cyfrifiadurol neu systemau rhwydwaith.
- Ymdrechion i fonitro data ar y rhwydwaith neu i gyflwyno pecynnau ffug, ffugio llwybrau neu amnewid gwybodaeth.
- Sganio'n fwriadol i ganfod unrhyw fyg neu wendid diogelwch neu geisio defnyddio byg neu wendid o'r fath.
- Mynd ati'n fwriadol i gyflwyno unrhyw firws, mwydyn, ceffyl Troea, ysbïwedd neu feddalwedd arall o'r fath i unrhyw adnoddau technoleg gwybodaeth, neu fynd ati i geisio osgoi unrhyw ragofalon a gymerir neu a ragnodir gan y brifysgol i atal hynny.

Adnoddau Technoleg Gwybodaeth
Mewn perthynas â'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn diffinnir adnoddau technoleg gwybodaeth fel:

- offer technoleg gwybodaeth (e.e. cyfrifiaduron, argraffyddion, rhwydwaith wifrog a diwifr y brifysgol, dyfeisiau aml-swyddogaeth e.e. llungopiwyr/argraffyddion Sharp)
- Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau technoleg gwybodaeth a ddarperir gan y brifysgol (e.e. ystafelloedd cyfrifiaduron at ddefnydd myfyrwyr, y rhwydwaith yn y neuaddau preswyl)

[1] https://community.jisc.ac.uk/library/janet-services-documentation/suggested-charter-system-administrators

- Meddalwedd (e.e. Office365, Microsoft Word)
- Cyfathrebu neu storio gwybodaeth ac unrhyw weithred sy'n golygu trin, trosglwyddo neu weld data trwy ddulliau electronig, oddi fewn i Brifysgol Bangor, oddi fewn i'r Deyrnas Unedig neu yn rhyngwladol.
- Unrhyw wybodaeth a gesglir trwy ddefnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i logiau systemau, recordiadau teledu cylch cyfyng a logiau mynediad trwy gerdyn.
- System ffôn y brifysgol, sy'n rhedeg dros rwydwaith y brifysgol.
- Gwasanaethau ar-lein o'r cwmwl megis Office365 neu adnoddau ar-lein eraill
- Cael mynediad i adnoddau technoleg gwybodaeth Prifysgol Bangor oddi ar y campws trwy rwydwaith di-wifr, trwy ddefnyddio eduroam mewn sefydliadau eraill ac ati.

## 4. Defnydd Derbyniol

4.1 Caiff adnoddau technoleg gwybodaeth, gan gynnwys cyfrif technoleg gwybodaeth, eu darparu i fyfyrwyr i gefnogi eu haddysg prifysgol, i staff fel rhan o'u cyflogaeth, ac i unigolion awdurdodedig eraill i hyrwyddo cenhadaeth y brifysgol.

Ni fydd y brifysgol yn atal defnyddwyr rhag defnyddio'r adnoddau technoleg gwybodaeth at ddibenion personol priodol ac anfasnachol, cyhyd â'u bod yn cadw at egwyddorion y rheoliadau defnydd derbyniol hyn. Ond nid yw'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn yn rhoi i'r defnyddwyr hawl mynediad ffurfiol a gellir diddymu breintiau o'r fath ar unrhyw adeg. Lle nad oes ar ddefnyddiwr angen mynediad at adnoddau technoleg gwybodaeth at ddibenion eu cyflogaeth neu eu hastudiaethau ni fydd unrhyw reidrwydd ar y brifysgol i ddarparu unrhyw adnoddau technoleg gwybodaeth.

4.2 Caiff adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol eu defnyddio mewn dull cymeradwy, moesegol a chyfreithiol er mwyn osgoi colled neu niwed i weithrediadau, delwedd neu fuddiannau ariannol y brifysgol.

4.3 Lle defnyddir adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol i gyrchu unrhyw adnoddau eraill, bydd unrhyw weithred a ystyrir yn gamddefnydd yn ôl rheoliadau'r adnodd hwnnw, neu'n anghyfreithlon o dan gyfraith y Deyrnas Unedig, yn cael ei ystyried yn gamddefnydd o dan y rheoliadau defnydd derbyniol hyn. Bernir bod y rheoliadau defnydd derbyniol hyn yn cynnwys Polisi Defnydd Derbyniol y Rhwydwaith Academaidd ar y Cyd (JANET) a thelerau'r gwahanol gynlluniau trwyddedu meddalwedd a data y mae'r brifysgol wedi cytuno mynediad o danynt e.e. Microsoft 265. [2]

4.4 Ni chaniateir defnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth at ddibenion masnachol ansefydliadol[3] neu er budd personol.

## 5. Amodau Defnyddio

Mae mynediad at adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

5.1 Mae defnyddwyr yn ymrwymo i gydymffurfio â darpariaethau'r holl Ddeddfau Seneddol perthnasol, deddfwriaeth berthnasol arall a chynsail gyfreithiol. Ceir rhestr o ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodiad 1. Mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn unrhyw ddefnyddiwr sy'n peri i'r brifysgol fod yn rhan o achos cyfreithiol o ganlyniad i ddefnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol. Bydd defnyddwyr yn indemnio'r brifysgol am unrhyw golled neu niwed, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a ddioddefwyd neu a wynebwyd o ganlyniad i weithredoedd a waherddir gan y rheoliadau defnydd derbyniol hyn

5.2 Darperir adnoddau technoleg gwybodaeth yn gyfan gwbl ar risg y defnyddwyr. Ni fydd y brifysgol yn atebol am golled (gan gynnwys colli unrhyw feddalwedd, data neu unrhyw swyddogaeth gyfrifiadurol

2 http://www.ja.net/company/policies/aup.html

3 Dylid edrych hefyd ar *Bolisi Ymgynghoriaeth* y brifysgol.

arall neu unrhyw golled economaidd, ganlyniadol neu anuniongyrchol), niwed (gan gynnwys niwed i galedwedd, meddalwedd neu ddata) neu anhwylustod sy'n deillio’n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth.

5.3 Darperir defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol i fyfyrwyr cofrestredig a staff â chontract cyflogaeth. Gall unrhyw bersonau eraill sydd â swyddogaeth gyfreithlon ym musnes y brifysgol (e.e. darlithwyr ar ymweliad) ofyn am gyfrif cyfrifiadurol trwy eu Coleg/Ysgol neu eu Gwasanaeth.

5.4 Rhaid i ddefnyddwyr sy'n trin, cyrchu neu storio gwybodaeth bersonol, gyfrinachol neu sensitif, gymryd yr holl gamau sy’n rhesymol i'w diogelu a rhaid dilyn polisïau a chanllawiau diogelu data a diogelwch gwybodaeth y brifysgol. Mae'n rhaid i ddyfeisiau symudol a reolir gan y brifysgol (e.e. gliniaduron, tabledi, ffonau clyfar, recordwyr llais) a ddefnyddir i storio neu gyrchu data personol, sensitif neu gyfrinachol, fod wedi eu hamgryptio. Ni ddylid defnyddio dyfeisiau personol i gyrchu neu storio data o'r fath.

5.5 Rhaid i holl ddefnyddwyr adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol sicrhau bod unrhyw gyfrifiadur neu ddyfais bersonol y maent yn gyfrifol amdanynt ac a ddefnyddir i gyrchu data a gwasanaethau'r brifysgol (diwifr neu wifrog), yn bodloni'r gofynion canlynol:

- Bod y gwneuthurwr yn parhau i’w cynnal
- Bod yn rhedeg System Weithredu sy’n parhau i gael ei chynnal

5.6 Mae pob cerdyn, enw defnyddiwr, cyfrinair a manylion eraill mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth a ddyrennir i unigolion i'w defnyddio’n unig gan yr unigolyn hynny y cawsant eu dyrannu iddynt. Ni ddylid datgelu cyfrineiriau, hyd yn oed i Weinyddwyr Awdurdodedig Systemau, neu i Awdurdodau Dynodedig. Mae defnyddwyr yn bersonol gyfrifol ac atebol am unrhyw ddefnydd a wneir o’u cyfrifon, eu manylion mewngofnodi, eu cyfrineiriau, eu cyfrin ymadroddion, eu cardiau, eu rhifau adnabod personol a’u tocynnau. Ni ddylai defnyddwyr ddefnyddio cyfrinair amlwg, na gwneud nodyn ohonynt yn rhywle lle byddai’n debygol i rywun ddod o hyd iddynt. Mae'r brifysgol yn defnyddio system Dilysu Aml-ffactor ac efallai y bydd angen i ddefnyddwyr ddefnyddio eu dyfais glyfar eu hunain i reoli'r ap/cod dilysu (nid oes cost i hynny).**Rhaid i ddefnyddwyr sy'n datgelu cyfrinair eu cyfrif technoleg gwybodaeth yn anfwriadol newid eu cyfrinair <u>ar unwaith</u> a hysbysu Desg Gymorth y Gwasanaethau Digidol ar 01248 388111 ar unwaith[4], i sicrhau y gellir cymryd camau adferol i gyfyngu ar effaith eang datgeliad o'r fath**.

5.7 Rhaid i ddefnyddwyr sy’n cyrchu gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol oddi ar y campws, ddefnyddio gliniadur o eiddo’r brifysgol ac a reolir gan y brifysgol sydd wedi’i gysylltu â rhwydwaith y brifysgol yn defnyddio’r gwasanaeth VPN (cysylltwch â’r Ddesg Gymorth Technoleg Gwybodaeth os oes angen meddalwedd VPN arnoch ar eich gliniadur prifysgol). Mae’n rhaid i chi hefyd fod yn ofalus ac osgoi gweithio mewn lleoliadau cyhoeddus lle gellir gweld eich sgrin. Mae cyngor ar weithio o bell gyda gwybodaeth wedi'i diogelu ar gael ym mholisi *Diogelwch Gwybodaeth* y brifysgol.

5..8 Rhaid i ddefnyddwyr gadw at delerau ac amodau’r holl gytundebau trwyddedu sy’n ymwneud ag adnoddau technoleg gwybodaeth; mae'r rhain yn cynnwys meddalwedd, data, offer, dogfennaeth gwasanaethau a nwyddau eraill. Bydd cadw at y rheoliadau defnydd derbyniol hyn fel rheol yn cyflawni gofynion o'r fath. Lle prynir meddalwedd gan ddefnyddiwr/adran i’w ddefnyddio ar offer technoleg gwybodaeth sy’n eiddo i’r brifysgol, rhaid cydymffurfio â darpariaethau penodol y drwydded.

5.9 Wrth ddefnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth bydd defnyddwyr yn cymryd i ystyriaeth bolisi eiddo deallusol y brifysgol a hawliau eiddo deallusol trydydd partïon yn enwedig wrth lawrlwytho, anfon ymlaen a defnyddio deunyddiau a ddiogelir gan hawlfraint ac/neu sy’n cynnwys deunyddiau brand. Er enghraifft logos, lluniau, testun, ffeiliau fideo, siartiau ac/neu eiconau.

[4]Os digwydd y tu allan i oriau'r ddesg gymorth, anfonwch e-bost at desg-gymorth@bangor.ac.uk

5.10 Bydd defnyddwyr yn rhoi'r allwedd i unrhyw ddata wedi ei amgryptio sydd yn eiddo iddynt ac a gaiff ei ddal ar offer cyfrifiadurol y brifysgol neu sy'n mynd trwy rwydweithiau'r brifysgol os bydd y brifysgol yn gofyn iddynt wneud hynny.

5.11 Pan na fydd angen offer technoleg gwybodaeth o eiddo'r brifysgol arnoch mwyach (e.e. cyfrifiaduron/tabledi), rhaid ei ailddefnyddio neu ei waredu yn unol â'r Polisi Ailddefnyddio a Gwaredu Offer Technoleg Gwybodaeth. Rhaid tynnu trwyddedau meddalwedd a gwybodaeth/data'r brifysgol, yn enwedig data a ystyrir yn ddata personol neu'n ddata categori arbennig o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae'r polisi'n sicrhau bod offer technoleg gwybodaeth yn cael eu gwaredu yn unol â deddfwriaeth gyfredol a pholisïau eraill y brifysgol (e.e. y Gyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff, y Polisi Diogelu Data ac Atodlen Cadw Cofnodion y Brifysgol).

5.12 Bydd ymwadiad e-bost y brifysgol yn ymddangos ar yr holl e-byst a anfonir o gyfrifon e-bost y brifysgol. Bydd yr ymwadiad yn ymddangos fel rhan safonol o bob e-bost a anfonir o gyfrifon defnyddwyr ac ni ellir ei newid na'i ddileu.

5.13 Rhaid i staff y brifysgol gadw at Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol Prifysgol Bangor.

5.14 Rhaid i ddefnyddwyr sicrhau nad ydynt mewn perygl o beri niwed ffisegol i isadeiledd y brifysgol.

5.15 Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol, os ydynt yn defnyddio gwasanaethau sy'n cael eu lletya mewn rhan wahanol o'r byd, y gallant hefyd fod yn ddarostyngedig i awdurdodaeth / deddfau tramor.

5.16 Rhaid i ddefnyddwyr sicrhau bod anfon data personol trwy e-bost neu dros y rhyngrwyd yn gwbl angenrheidiol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Wrth ystyried a ddylid defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol i storio neu anfon gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif dylai defnyddwyr nodi darpariaethau monitro'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn a hefyd y gall yr holl wybodaeth sy'n cael ei storio'n electronig, gan gynnwys e-byst, fod yn destun cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Dylai unrhyw faterion sy'n gyfrinachol neu'n sensitif, gael eu marcio'n eglur fel cyfrinachol (e.e. ym mhwnc yr e-bost a'u hamgryptio,) ond dylid nodi nad yw hyn yn eithrio'r wybodaeth rhag cais Diogelu Data neu gais Rhyddid Gwybodaeth. Ceir arweiniad pellach ym Mholisi Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol neu drwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol[5]. Gellir gofyn am gymorth ar amgryptio e-byst gan y Ddesg Gymorth Technoleg Gwybodaeth.

5.17 Pan fyddai defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth yn torri'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn, ond bod angen gwneud hynny at ddibenion astudiaethau neu fusnes dilys yn y brifysgol (megis ymchwil gyfreithlon), dylai defnyddwyr wneud cais am eithriad rhannol o'r adrannau perthnasol o'r rheoliadau defnydd derbyniol hyn gan y Pennaeth Ysgol a'r Deon Coleg perthnasol, ac yna geisio awdurdodiad ffurfiol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Os yw'r defnydd sy'n mynd yn groes i'r rheolau'n ymwneud â gwefannau cyfyngedig yna mae'r gweithdrefnau ar gyfer caniatáu mynediad wedi'u hamlinellu ym Mholisi'r Brifysgol ar Hidlo'r We.

5.18 Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol fod gan y brifysgol ddyletswydd statudol i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth (o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r 'Ddyletswydd Prevent'). Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Ni ddylai defnyddwyr gyflawni unrhyw weithredoedd a allai ysgogi neu hyrwyddo eithafiaeth, gan gynnwys, ond heb fod yn fod yn gyfyngedig i, gyrchu gwefannau neu rannu deunydd y gellid ei gysylltu â sefydliadau eithafol neu derfysgol. Mae'r brifysgol yn defnyddio technolegau hidlo i rwystro mynediad i gynnwys anghyfreithlon – gweler Polisi'r Brifysgol ar Hidlo'r We.

[5] info-compliance@bangor.ac.uk

## 6 Gwaharddiadau

Gwaherddir defnyddwyr rhag y canlynol:

6.1 Defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol mewn unrhyw ffordd sy’n dwyllodrus, yn dramgwyddus, yn anllad, yn hiliol, yn faleisus, yn ddifenwol, yn enllibus, yn gamdriniol, yn bornograffig, yn rhywiol, yn anweddus, yn drosedd (nac uniongyrchol nac anuniongyrchol), neu sy’n hyrwyddo eithafiaeth / terfysgaeth ac / neu a allai fod yn gyfystyr â meithrin perthynas amhriodol â phlentyn a throseddau eraill yn erbyn plant dan oed.

6.2 Defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth mewn modd bwriadus i achosi aflonyddwch, bwlio, annifyrrwch, gorbryder diangen, anhwylustod neu siomiant i rywun arall neu mewn modd sy’n debygol o wneud hynny neu mewn modd sy'n torri cyfrinachedd.

6.3 Anfon/postio hysbysebion na ofynnwyd amdanynt, sbam, anfon e-byst/negeseuon sy'n honni dod gan unigolyn gwahanol i’r unigolyn sy'n anfon y neges mewn gwirionedd (e.e. defnyddio cyfeiriad ffug), llythyrau cadwyn, cynlluniau pyramid a negeseuon “niwsans” eraill.

6.4 Torri hawliau eiddo deallusol trydydd parti, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i drwyddedau, hawlfraint, nodau masnach neu gopïo cerddoriaeth yn anghyfreithlon.

6.5 Llygru neu ddinistrio data neu wybodaeth sy’n eiddo naill ai i'r brifysgol neu i drydydd parti. Mae’n erbyn y gyfraith i ddinistrio gwybodaeth y mae ei hangen naill ai ar gyfer cais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu’r Ddeddf Diogelu Data.

6.6 Unrhyw weithgareddau y gellir eu disgrifio fel hacio. Diffinnir hacio yma fel y bwriad i achosi, neu weithredoedd a gyflawnir gan wybod eu bod yn debygol o achosi, colled neu niwed neu addasiad anghyfreithlon i wybodaeth a gedwir ar adnodd cyfrifiadurol neu unrhyw weithred sy'n ymdrech i gael mynediad heb awdurdod i adnodd technoleg gwybodaeth, neu sy’n gostwng ei werth, neu'n lleihau ei ddefnyddioldeb, neu'n cael effaith niweidiol mewn unrhyw ffordd arno. Diffinnir hacio ymhellach yn y Diffiniad Termau.

6.7 Gwastraffu amser staff neu wastraffu adnoddau technoleg gwybodaeth yn fwriadol (e.e. lled band y rhwydwaith, pŵer prosesu). Bydd defnyddwyr yn cymryd pob gofal rhesymol i beidio â tharfu ar waith pobl eraill ac fe’u gwaherddir rhag defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol mewn ffordd sy’n atal defnyddwyr eraill rhag cael gwasanaeth neu mewn ffordd sy'n effeithio ar ddelwedd neu enw da'r brifysgol.

6.8 Llwytho neu ailffurfweddu unrhyw feddalwedd neu ddata ar gyfrifiaduron y brifysgol a ddarperir at ddefnydd myfyrwyr heb ganiatâd y Gwasanaethau Digidol neu yn achos cyfrifiaduron a ddarperir gan golegau, ysgolion neu adrannau, yr awdurdod dynodedig o fewn y coleg, yr ysgol neu’r adran honno. Pan wyddoch am feddalwedd a allai helpu eich astudiaethau yn y brifysgol, gallwch awgrymu bod y meddalwedd ychwanegol hwnnw'n cael ei lwytho trwy gysylltu â Chanolfan Gefnogaeth y Gwasanaethau Digidol (desg-gymorth@bangor.ac.uk) lle gwneir penderfyniad ar sail pa mor ddefnyddiol a fforddiadwy yw'r meddalwedd hwnnw.

6.9 Cysylltu neu wneud ymdrech i gysylltu unrhyw ddyfais sy’n ymestyn rhwydwaith neu wasanaethau cyfrifiadurol y brifysgol (e.e. cysylltu pwynt(iau) mynediad diwifr, llwybrydd(ion), mini-switsh(ys), llinell(au) band llydan ac ati) heb gymeradwyaeth ddatganedig y Gwasanaethau Digidol. Mae cysylltu â rhwydwaith wifrog y brifysgol trwy ddyfeisiau personol (e.e. cyfrifiadur, ffôn ac ati) wedi ei wahardd, ond fe'i caniateir ar rwydwaith neuaddau preswyl y brifysgol (gwifrog, diwifr, ResNet ac ati) yn amodol ar ddarpariaethau eraill y rheoliadau hyn (e.e. y darpariaethau yn adran 5.5).

6.10 Defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth at unrhyw ddefnydd masnachol personol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i waith ymgynghorol preifat/personol ac eithrio gwaith a gymeradwyir o dan Bolisi Ymgynghoriaeth y brifysgol.

6.11 Defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth i ymrwymo i gontract cyfreithiol-rwym onid awdurdodir hynny'n ddatganedig gan y Pennaeth Ysgol, y Deon Coleg, neu'r Pennaeth Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol.

6.12 Gwaredu offer technoleg gwybodaeth y brifysgol ac eithrio pan wneir hynny'n unol â'r Polisi Ailddefnyddio a Gwaredu Offer Technoleg Gwybodaeth.

6.13 Ni ddylai defnyddwyr geisio monitro defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth. Byddai hyn yn cynnwys:

- Monitro traffig y rhwydwaith;
- Ymgymryd â darganfyddiad rhwydweithiau a/neu ddyfeisiau;
- Cipio traffig diwifr;
- Gosod meddalwedd cofnodi trawiadau bysellau neu feddalwedd cymryd sgrinluniau a allai effeithio defnyddwyr eraill;
- Gwneud ymdrech i gael mynediad at gofnodion y system neu at weinyddion neu at offer rhwydwaith.

## 7. Monitro a Phreifatrwydd

7.1 Mae deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a rheoliadau'r brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol roi gwybod i ddefnyddwyr sut y bydd yn diogelu preifatrwydd eu cyfathrebu a'u data. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol bod gan rai o weinyddwyr y system fynediad at wybodaeth system, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- cofnodion digwyddiadau a defnydd,
- traffig rhwydwaith,
- data a gedwir gan ddefnyddwyr yn defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol (gan gynnwys ffeiliau, e-byst, data cronfeydd data ac ati),
- Recordiadau teledu cylch cyfyng (gan gynnwys camerâu corff) o bobl ac o ystad y brifysgol,
- gwybodaeth a gedwir gan system mynediad trwy gerdyn y brifysgol (ar gyfer mynediad i ystafelloedd e.e. ystafelloedd cyfrifiaduron i fyfyrwyr) ac ati.

7.2 Mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i fonitro ac/neu gofnodi cyfathrebiadau a data fel y barna'n briodol:

- Er mwyn sefydlu bodolaeth ffeithiau i wybod a ydym yn cydymffurfio â chyfraith y Deyrnas Unedig neu â rheoliadau neu weithdrefnau'r brifysgol,
- Er budd diogelwch gwladol,
- Er mwyn cydymffurfio â cheisiadau cyfreithlon am wybodaeth oddi wrth y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith,
- Er mwyn atal neu ganfod troseddu,
- Er mwyn ymchwilio neu ganfod defnydd anawdurdodedig o systemau, a, lle bo angen yn dilyn awdurdodiad Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol (neu'r Ysgrifennydd y Brifysgol), adrodd am ddefnydd anawdurdodedig o'r fath i'r heddlu,
- Er mwyn sicrhau bod systemau'n gweithredu'n effeithlon, neu fel rhan greiddiol o sicrhau hynny.

Bydd monitro o'r fath yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol fel y'i rhestr yn Atodiad 1.

7.3 Mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i fynnu gwaredu neu addasu gwybodaeth bersonol o'i hadnoddau technoleg gwybodaeth.

7.4 Pan nad yw defnyddiwr yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn y brifysgol (e.e. absenoldeb salwch, absenoldeb tymor hir, absenoldeb mamolaeth, gwyliau neu os yw defnyddiwr wedi gadael y brifysgol), mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i fynd i mewn i gyfrif technoleg gwybodaeth y defnyddiwr (gan gynnwys e-bost, ffeiliau data ac ati) er mwyn sicrhau parhad busnes beunyddiol y brifysgol fel bod ei hanghenion busnes yn cael eu diwallu. (Gweler Adran 8 isod).

7.5 Seiberddiogelwch - gellir monitro traffig rhwydwaith a data a gedwir i ganfod bygythiadau megis firysau, sbam, ymosodiadau gwe-rwydo, gweithgarwch gelyniaethus ac amhriodol ac ati, a gellir ei addasu i gael gwared â bygythiadau o'r fath.

7.6 Gall gweinyddwyr y system ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd wrth fonitro (e.e. o gofnodwyr digwyddiadau a defnydd) i sicrhau gweithrediad arferol systemau a gwasanaethau technoleg gwybodaeth ond ni chânt ddefnyddio neu ryddhau unrhyw ddeunydd personol, sensitif neu gyfrinachol i'r brifysgol neu i drydydd parti heb awdurdod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a heb dderbyn y gwaith papur priodol. Dylai gweinyddwyr y system ymgynghori â Chyfarwyddwr/Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Digidol os ydynt yn ansicr. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn sicrhau y dilynir y ddeddfwriaeth (e.e. Deddf Diogelu Data) a'r gweithdrefnau perthnasol wrth ryddhau gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol. Dyma rai enghreifftiau o ryddhau gwybodaeth yn y modd hwn:

- Cydymffurfio â cheisiadau cyfreithlon am wybodaeth gan y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith
- Mewn achosion pan fo lle i gredu y torrwyd rheoliadau'r brifysgol,
- Pan fo cael mynediad at ddata'r brifysgol yn hanfodol am resymau gweithredol.

7.7 Gall gweinyddwyr y system gopïo data defnyddwyr neu gloi cyfrif i gadw tystiolaeth hyd nes y ceir caniatâd i gynnal ymchwiliad pellach.

**8. Trefniadau Parhad Busnes a Threfniadau Gadael o ran Cyfrifon ac Adnoddau Technoleg Gwybodaeth Defnyddwyr**

8.1 Mae'n bosibl y bydd angen y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon defnyddwyr (gan gynnwys data, dogfennau, e-byst ac ati) yn eu habsenoldeb er mwyn sicrhau parhad busnes beunyddiol y brifysgol ac i sicrhau bod ei hanghenion busnes yn cael eu diwallu.

8.2 O dan amgylchiadau arferol, dylai defnyddwyr sy'n disgwyl bod i ffwrdd o'u dyletswyddau/astudiaethau dros dro, neu'r rhai sy'n gadael eu hastudiaethau, yn gadael cyflogaeth, neu'n rhoi'r gorau i'w cyfrif technoleg gwybodaeth, wneud trefniadau ymlaen llaw gyda'u hysgol/adran i sicrhau parhad busnes.

8.3 Ni ddylai defnyddwyr ddatgelu eu cyfrinair(cyfrineiriau) i unrhyw un, ond dylent sicrhau bod gwybodaeth berthnasol o'u cyfrif technoleg gwybodaeth yn y brifysgol yn cael ei rhannu â defnyddwyr awdurdodedig eraill, er enghraifft, drwy storio dogfennau gofynnol ar MS-TEAMS a rhoi mynediad diogel a phriodol atynt, drwy roi mynediad i aelodau eraill o staff at eu hadnoddau ar Blackboard, drwy anfon e-byst perthnasol ymlaen a / neu drwy roi e-bost awto-ateb ar eu cyfrif e-bost i hysbysu ymholwyr â phwy y dylent gysylltu.

8.4 Pan fydd aelod o staff yn gadael cyflogaeth y brifysgol, neu pan nad yw myfyriwr bellach wedi'i gofrestru fel myfyriwr presennol, neu pan fo unrhyw ddefnyddiwr arall yn gadael, bydd yr hawl i ddefnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth y brifysgol (gan gynnwys eu gallu i ddefnyddio cyfeiriad e-bost bangor.ac.uk) yn dod i ben ar unwaith, oni bai y cytunir i hynny yn ysgrifenedig gan y Deon Coleg, y Pennaeth Ysgol neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol. Caniateir yr estyniad hwn ar y defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth am gyfnod penodol ac ar ôl hynny bydd yr hawl o dan yr estyniad hwn yn dod i ben yn awtomatig. Fel rheol bydd cyfrifon defnyddwyr yn dod i ben ychydig ar ôl y dyddiad gadael a gofnodir yn y system cofnodion myfyrwyr neu adnoddau dynol.

8.5 Mewn amgylchiadau eithriadol pan na all y brifysgol sicrhau parhad busnes trwy'r trefniadau uchod (e.e. absenoldeb annisgwyl, marwolaeth defnyddiwr, pan fo angen cadw cyfrif y tu hwnt i'r dyddiad dod i ben cychwynnol neu pan nad yw'r trefniadau a wnaed cyn ymadael yn ddigonol), mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i gael mynediad i gyfrif technoleg gwybodaeth defnyddiwr. Bydd mynediad o'r fath yn cael ei reoli'n unol â pholisi'r brifysgol ar *Fynediad Sefydliadol i Gyfrifon ac Offer Technoleg Gwybodaeth Staff a Myfyrwyr* (sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad 2).

8.6 Bydd pob defnyddiwr hefyd yn sicrhau eu bod, cyn gadael y brifysgol, yn dychwelyd holl offer technoleg gwybodaeth y brifysgol (e.e. gliniadur neu ddyfais symudol) i'r Gwasanaethau Digidol neu i'w Coleg/Ysgol/Gwasanaeth mewn cyflwr rhesymol a dylai'r offer fod yn gweithio. Caiff derbyn y cyfryw offer ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

**9. Ymwadiad**

Nid yw Prifysgol Bangor yn gwneud unrhyw sylwadau am addasrwydd ei hadnoddau technoleg gwybodaeth at unrhyw ddiben. Caiff yr holl warantau, telerau ac amodau mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn, gan gynnwys yr holl warantau, telerau ac amodau a awgrymir gan yr ystatud, neu fel arall, ynghylch ansawdd boddhaol, addasrwydd at ddiben arbennig, a pheidio â thorri hawlfraint eu heithrio i'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith.

Ni fydd Prifysgol Bangor o dan unrhyw amodau'n gyfrifol am unrhyw ddifrod, costau neu golledion (gan gynnwys heb gyfyngiad, rhai uniongyrchol, anuniongyrchol, canlyniadol neu fel arall) sy'n codi o'r defnydd o'r gwasanaeth neu sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â defnyddio'r gwasanaeth, neu ag unrhyw oedi o ran mynediad, neu anallu i'w ddefnyddio, a boed hynny'n deillio mewn camwedd, contract, esgeulustod, o dan ystatud neu fel arall. Nid oes unrhyw beth yn y telerau hyn yn eithrio neu'n cyfyngu ar atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod Prifysgol Bangor wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**10. Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau a Chwynion**

10.1 Dylid rhoi gwybod ar unwaith i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol am bob achos o dorri'r Rheoliadau Defnydd Derbyniol neu am unrhyw amheuaeth o hynny.

10.2 Mae'n bwysig rhoi gwybod am unrhyw doriad cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau'r niwed posibl i'r brifysgol (gan gynnwys niwed i'w henw da), lleihau trallod i unigolion a lleihau'r risg o ddirwyon trwm a allai fod yn sylweddol am dorri Ddeddf Diogelu Data 2018.

10.3 Ni ddylai unrhyw un, o dan unrhyw amgylchiadau, geisio celu tor-diogelwch data. Gall trosedd o'r fath arwain at gamau disgyblu a gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd weithredu yn erbyn y gorfforaeth neu'r unigolyn.

10.4 Mae gan y brifysgol Bolisi Datgelu Er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban) hefyd. Mae hyn yn caniatáu i unigolion sydd â phryderon am weithredoedd unigolyn arall megis materion diogelwch neu gamddefnyddio gwybodaeth godi pryderon o'r fath mewn ffordd strwythuredig ac adeiladol.

**11. Cyffredinol**

11.1 Ni fydd annilysrwydd neu anorfodadwyedd unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau defnydd derbyniol hyn yn rhagfarnu nac yn effeithio ar ddilysrwydd na gorfodadwyedd unrhyw ddarpariaeth arall yn y rheoliadau.

11.2 Ac eithrio gan y brifysgol a chan y defnyddiwr, nid yw'n fwriad gan y partïon i unrhyw un o'r telerau fod yn orfodadwy yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw berson nad yw'n rhan ohono.

11.3 Dehonglir y rheoliadau defnydd derbyniol hyn yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr, ac mae'r partïon yn cytuno i fod yn ddarostyngedig i awdurdod anghyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

**Atodiad 1**

Mae deddfwriaeth sy'n berthnasol i ddefnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:-

- Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 a 1964
- Deddf Amddiffyn Plant 1978
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
- Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Deddf Atal Terfysgaeth 2005
- Deddf Terfysgaeth 2006
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd) 2003 (fel y'u diwygiwyd)
- Deddf Difenwi 1996 a 2013